

**Parti Nadolig i ddwysgwyr
A Chymry alltud Lloegr
Pnawn Sul 20 o Ragfyr
2.00 tan 3.30 y prynhawn**



I orwedd mewn preseb

I orwedd mewn preseb heb gadair na chrud,
Rhowd Iesu y Baban oedd berchen y byd,
A thra roedd yn cysgu yn isel ei ben,
Roedd sêr bach yn gwylio ei gawell o'r nen.

Os brefiad y defaid a'i cadwai'n ddi-hun,
Ni chriai gan ofn ei gre'duriaid ei hun;
O! Faban, rwyt eto yn Arglwydd y byd,
O! aros i'm gwylio yn cysgu'n fy nghrud.

Cyf. Nantlais 1874—1959



Dawel nos

Dawel Nos, Sanctaidd yw'r nos;
Cwsg a gerdd waun a rhos,
Eto'n effro mae Joseff a Mair,
Faban annwyl ynghwsg yn y gwair,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd.

Dawel nos, Sanctaidd yw'r nos;
Wele fry seren dlos.
Daw'r bugeiliaid a'r doethion i'r drws,
Faban annwyl, yr wyt Ti mor dlws,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd,
Cwsg mewn gwynfyd a hedd.
Joseph Mohr, 1792 –1848
cyf. T.H. Parry Williams 1887 –1975



**GWLAD Y CARDIAU NADOLIG
PENILLION Y PLANT
gan T.Llew Jones**

Mae gwlad y cardiau Nadolig mor dlws,
A'r eira'n llyfn ac yn lân hyd y ffyrdd,
Mae mynnwes y robin ar garreg y drws
Mor rhyfeddol o goch, a'r celyn mor wyrdd.

Mae eglwys hen-ffasiwn ynganol y coed,
A thai a'u ffenestri'n olau i gyd,
A'r bechgyn a'r merched bach delaf erioed
Yn canu hen garol ar gornel y stryd.

Hen dafarn a'r eira'n wyn ar ei do,
A choets ar fin cychwyn i rywle ar hynt,
A rhyw hen ŵr barfog yn dod ar ei dro
A'r ceirw'n ei dynnu mor gyflyn â'r gwynt.

Am wddf y dyn eira tu allan i'r drws
Bu rhywun yn clymu rhubanau a chloch;
O, ydyw! Mae'r wlad yn rhyfeddol o dlws,
Ond pam y mae mynnwes y robin mor goch?

(Yn ôl hen chwedl cafodd y Robin ei fron goch pan
ddisgynnodd ar bren y Groes ar ddydd
croeshoelio Iesu Grist)



Carol Mair (alaw Suo Gân)

Cwsg fy mhlentyn yn dy breseb,
Paid ag wylo yn dy grud,
Oer yw'r gwynt, a'r eira'n fantell
Wedi'i thaenu dros y byd.
Maddau in, dy dad a minnau,
Fod dy wely'n un mor wael,
Nid oedd croeso yn y llety
Na'r un aelwyd glyd i'w chael.

Paid ag ofni'r defaid cysglyd
A'r [?] yn bach o gylch dy grud,
Gwyddant hwy mai Ti yw'r lesu
Ddaeth i achub yr holl fyd.
G[?]yr dy dad a minnau hefyd,
Ac mae'r seren yn y nef
Yn rhoi arwydd i'r holl bobol
I ddod yma i Fethlem dref.

Clyw y clychau yn y pellter
A'r angylion fyny fry,
Gwêl y doethion a'u hanrhegion,
Aur a thus a myrr i Ti.
Gweithwyr tlawd a thywysogion
Yma'n dod i blygu glin,
Mae'r holl fyd yn awr yn gwybod-
Ti yw'r lesu mawr ei hun.

Mary Jones
Tongwynlais



Hwiangerdd Mair

Suai'r gwynt, suai'r gwynt,
Wrth fyned heibio i'r drws:
A Mair ar ei gwely gwair,
Wyliai ei Baban tlws.
Syllai yn ddwys ar ei ?yneb llon,
Gwasgai Waredwr y byd at ei bron:
Canai ddiddanol gân,
Cwsg, cwsg f'anwylyd bach,
Cwsg nes daw'r bore iach.
Cwsg, cwsg, cwsg.

Cwsg am dro; cwsg am dro
Cyn daw'r bugeiliaid hyn;
A dod, dod, i seinio clod,
Wele mae'r doethion syn;
Cwsg cyn daw Herod a'i gledd ar ei glun,
Cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun;
Cwsg cyn daw'r Groes i'th ran,
Cwsg, cwsg f'anwylyd bach,
Cwsg nes daw'r bore iach.
Cwsg, cwsg, cwsg.

Nantlais 1874—1959

O! dawel ddinas Bethlehem

O! dawel ddinas Bethlehem!
O dan dy sêr di-ri',
Ac awel fwyn Jiwdea'n dwyn
Ei miwsig atat ti;
Daw heno seren newydd, dlos
I wenu uwch dy ben,
A chlywir cân angylion glân
Yn llifo drwy y nen.

O! dawel ddinas Bethlehem!
Bugeiliaid heno ddaw
Dros bant a bryn at breseb syn,
Oddi ar y meysydd draw:
A chwilio wnânt am Faban bach
Sy'n dod yn Geidwad dyn,
Yn obaith byw i ddynol-ryw,-
Y Bugail Da ei hun.

O! dawel ddinas Bethlehem!
Pwy heno ynot sydd?
Pa ddiethr wawr sy'n dod i lawr?
Pa ryw dragwyddol ddydd?
Os cysgu'n dawel heno'r wyt,
Daw Golau penna'r nef
I'r ogaf laith i ddechrau'r daith
Gogoniant iddo Ef!

Ben Davies, PantTeg 1864 –1937

Y BLYGAIN gwasanaeth carolau traddodiadol y Cymry

Ystyr y gair plygain yw ‘caniad y ceiliog’. Gwasaneth crefyddol, fyddai’n cael ei gynnal yn gynnar iawn – rhwng tri a chwech o’r gloch ar fore’r Nadolig. Byddai rhai’n cerdded am filltiroedd yn y tywyllwch i gyrraedd yng ngolau kannwyll. Mae’r traddodiad wedi parhau, ond erbyn heddiw, cynhelir y rhan fwyaf o’r plygeiniau gyda’r nos. Rhaid yw pwysleisio, yn ôl traddodiad, mai gwasanaeth ydyw, ac nid cyngerdd.

Mae’n arferiad i’r gweinidog neu’r ficer ddechrau’r gwasanaeth efo gweddi a darlleniad o’r ysgrythur, cyn iddo gyhoeddi “Mae’r Blygain yn agored” a thrwy hyn, yn rhoi cyfle i aelodau’r gynulleidfa i fynd i’r tu blaen i ganu.

Does dim trefn na rhaglen o gwbl - ond fel arfer bydd dwy rownd. Yn y Rownd Gyntaf – bydd unigolyn neu barti yn sefyll ac yn mynd ymlaen i ganu un garol ar y tro.

Yna bydd rhywun arall yn codi, ac yn dilyn, ac wedyn parti arall. Mae hyn yn parhau hyd nes bydd neb arall yn codi i ganu. A dyna ddiwedd y rownd gyntaf!!

Wedyn, bydd y gynulleidfa yn cyd-ganu carol, a hefyd ceir casgliad yn y canol fel arfer.

Ynd bydd yr Ail Rownd yn dechrau - bydd y cantorion i gyd eto’n codi i ganu, ac yn yr un drefn â’r tro cyntaf. Rhaid cofio fod y carolau Plygain yn hen iawn ac yn unigryw i Gymru. Un rheol bwysig yw nad yw’n bosib canu carol os oes rhywun arall wedi ei chanu yn barod (felly.... rhaid cael stôr dda o garolau, rhag ofn!!)

Ar ddiwedd yr ail hanner mae’n draddodiad yn sir Drefaldwyn i’r dynion, sydd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth, i fynd ymlaen i gyd-ganu’r hen garol draddodiadol Carol y Swper. Yna bydd y ficer neu’r gweinidog yn cyhoeddi’r fendith – a dyna ddiwedd y Blygain.

Yn dilyn, bydd swper ysgafn wedi ei drefnu gan y merched, yn y festri neu’r neuadd leol, a chyfle i rannu ambell stori dros baned o de!

Rhiain Bebb



Clywch, y ddwyfol sanctaidd gân

Clywch y ddwyfol sanctaidd gan
Ganed inni Frenin glan
Heddiw fe ddaeth hedd i fyd
Am fod Iesu yn ei grud
Rhowch genhedloedd lawen lef
Cenwch gyda chor y nef
Boed gorfoledd yn eim trem
Ganed Crist ym Methlehem
Clywch y ddwyfol sanctaidd gan
Ganed inni Frenin glan

Haul cyfiawnder dwyfol yw
Hwn yw cennad cariad Duw
Golau bywiol ddaeth i'r byd
Tecaf o bob trysor drud
Rhowch genhedloedd lawen lef
Cenwch gyda chor y nef
Boed gorfoledd yn eim trem
Ganed Crist ym Methlehem
Clywch y ddwyfol sanctaidd gan
Ganed inni Frenin glan

C.Wesley 1707 – 88
cyf D Jacob Davies 1916

Pa mor bell yw Bethlem dref?

Pa mor bell yw Bethlem dref?

Nid pell yw hi.

Gawn ni olau'r seren glir

I'n harwain ni?

Gawn ni weld ei lety llwm,

Os yno'r awn?

O agorwn ni y drws,

Pa groeso gawn?

Gawn ni gyffwrdd oen neu ych,

Neu asyn blin?

Gweld y fam a'r Baban bach

Gwsg ar ei glin?

O cyffyrddwn yn ei law

Â dwylo mwyn,

Ddeffry Ef a'n gweled ni -

Ddaeth ar ei fwyn?

Dygwyd aur a thus a myrr

Gan ddoethion hen.

Dyma'n hunig roddion ni-

Deigryn a gwên;

Er na feddwn roddion drud

I'w rhoi i Ti,

Rhown ein calon fach yn llwyr

O! cymer hi.

Baban Mair i'r byd a ddaeth

Yn Dduw a dyn;

Rhydd Efe i galon plant

Fendith mewn hun.

Huno wedi blino mae

Holl plant y byd:

Gwylia cariad dwyfol glân

Drostynt o hyd.

Frances Chesterton
cyf G Wynne Griffith 1884—1967